# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 24/06/2026 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 30/06/2026 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 07/07/2026 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

**PWNC** – **Gosod tir yn Ffordd Pencefn**

**PENDERFYNIAD –**

I gymeradwyo gosod tir yn Ffordd Pencefn yn uniongyrchol i'r tenant presennol o dir cyfagos, ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd a'r Aelod Lleol.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gethin Jones (Uwch Syrfëwr Stadau) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 24/06/2026 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | Paul Rowlinson |

**Pwnc :**

Gosod tir yn Ffordd Pencefn.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I gymeradwyo gosod tir yn Ffordd Pencefn yn uniongyrchol i'r tenant presennol o dir cyfagos, ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw osodiadau uniongyrchol o eiddo nad ydynt yn cael eu cynnig ar y farchnad agored gael eu cymeradwyo gan yr Aelod Cabinet perthnasol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r darpar denant ar hyn o bryd yn dal tenantiaeth o dir yn Ffordd Pencefn, Dolgellau, lle mae garej breswyl wedi'i lleoli. Mae'r tenant wedi mynegi dymuniad i lesu darn bach ychwanegol o dir cyfagos at ddibenion parcio cerbydau modur. Mae'r tir dan sylw yn ymestyn i oddeutu 18.5 metr sgwâr ac ar hyn o bryd mae'n dir gwastraff nad yw'n cael ei ddefnyddio. Mae swyddogion y Cyngor wedi cadarnhau bod y tir yn weddill ei anghenion i ofynion gweithredol.

Mae Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Gwynedd sicrhau'r ystyriaeth orau rhesymol y gellir ei chael wrth waredu tir, gan

gynnwys drwy gyfrwng les. Mae Polisi Rheoli Asedau’r Cyngor yn gyffredinol yn ffafrio gwaredu ar y farchnad agored er mwyn sicrhau tryloywder a chystadleuaeth deg, ac i gefnogi cydymffurfiaeth â’r ddyletswydd statudol hon. Fodd bynnag, mae’r Polisi hefyd yn cydnabod y gall rhai darnau o dir, oherwydd eu maint, eu natur neu eu lleoliad, fod o ddiddordeb i un parti penodol yn unig. Mewn amgylchiadau o’r fath, gellir ystyried gosodiad uniongyrchol, yn amodol ar y cymeradwyaethau priodol.

Yn yr achos hwn, mae maint cyfyngedig y tir a’i berthynas â’r eiddo cyfagos yn golygu ei bod yn annhebygol o fod o ddiddordeb i unrhyw barti arall heblaw’r darpar denant. Ar y sail hon, ystyrir bod les uniongyrchol yn briodol.

Cadarnheir nad oes unrhyw fwriad i dderbyn rhent sy’n is na gwerth rhent y farchnad a aseswyd ar gyfer y tir.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**
Prif Swyddog Cyllid – “Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Swyddog Monitro – “Rwy’n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.”

Aelodau Lleol (Cynghorydd Dyfrig Siencyn) – “...does gen i ddim gwrthwynebiad i’r les gan fod parcio ar y ffordd yn broblem yn y safle yma.”




Teitl / Title:

# Land at Ffordd Pencefn, Dolgellau

Allwedd / Key:

Property

Dyddiad / Date:
08/05/2026

Graddfa / Scale @ A4:
1:500

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd